

CYNGOR CYMUNED LLANDDAROG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddarog ym mis Mehefin 2025 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Porthyrhyd ar 11/06/2025 am 19.00.

47/2025-2026 Yn bresennol.

Cynghorwyr: R Owen (Cadeirydd), Cynghorydd Sir H Jones, R Jones, J Williams O.B.E, M Griffiths, A Aldridge.

Cynghorydd Sir S Hughes.

Clerc.

Cyfieithydd: H Mainwaring.

48/2025-2026 I dderbyn ymddiheuriadau.

Cynghorwyr: K Waters, R McFarlane, C Jones, T Evans.

49/2025-2026 I dderbyn datganiadau o fuddiant.

Dim.

50/2025-2026 Cyfle i'r cyhoedd annerch y Cyngor ar eitemau ar yr agenda.

Dim.

51/2025-2026 Materion Cyngor Sir - Y Cynghorydd Sir S Hughes.

Darllenodd y Cynghorydd Sir S Hughes yr adroddiad canlynol –

“Mynychais gyfarfod y Cyngor Sir ym mis Mai, ac rwyf nawr ar y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol.

Ymwelais â Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ar benwythnos eu pen-blwydd yn 25 oed, ac rwyf mewn trafodaethau â nhw a'r Cyngor ynghylch coffáu'r garreg filltir hon gyda'r posibilrwydd o blannu coed ar y gylchfan y tu allan i'r Ardd.

Rwy'n cyfarfod â chynrychiolwyr o Ddŵr Cymru ar 11/06/2025 i drafod y pryderon a ddaeth i'm sylw gan rai trigolion yn ardal Porthyrhyd.

Mae Gorchymyn drafft i'w hysbysebu, Hysbysiadau Cyhoeddus yn ymwneud â'r cynigion cyflymder yn yr ardal a'i roi yn y wasg leol, ar y wefan a'i roi ar y safle ar hyd y darnau o'r ffordd dan sylw. Bydd gan yr Hysbysiad Cyhoeddus gyfnod gwrthwynebu o 21 diwrnod sy'n caniatáu i unrhyw wrthwynebiadau neu sylwadau gael eu cyflwyno i'r Cyngor Sir. Ar ôl iddo ddod i ben, os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau yna bydd y Gorchymyn drafft yn weithredol, fodd bynnag, os derbynnir gwrthwynebiadau yna byddant yn cael eu hadrodd a'u hystyried yng Nghyfarfod Penderfynu Aelod y Cabinet nesaf sydd ar gael.

Rwy'n parhau i helpu a chefnogi pobl leol gyda'u hymholiadau a'u pryderon, y mae'r rhan fwyaf ohonynt o natur gyfrinachol”.

52/2025-2026 Adroddiad y Cadeirydd.

Cyhoeddodd y Cadeirydd y byddai'n mynychu agoriad swyddogol Neuadd Bentref newydd Llanddarog am 18.30 ar 13/06/2025.

53/2025-2026 Cadarnhau a llofnodi Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 14/05/2025.

Penderfynwyd cadarnhau cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol a'r cyfarfod misol ar 14/05/2025. Cynigiwyd gan y Cynghorydd J Williams O.B.E ac eiliwyd gan y Cynghorydd M Griffiths.

54/2025-2026 Materion yn codi o'r cofnodion uchod.

Hysbysodd y Clerc aelodau'r cyngor fod pob mater i'w ddatrys wedi'i weithredu ac os oedd gohebiaeth wedi dod i law, bod copi o'r E-bost wedi'i anfon at bob aelod er gwybodaeth.

Derbyniwyd yr e-bost canlynol ar 10/06/2025 a'i anfon ymlaen at holl aelodau'r cyngor ynghylch y bin sbwriel ym Mynyddcerrig –

“Yn ddiweddar, cawsom y dasg o gynnal adolygiad o'n Gwasanaethau Glanhau. Fel rhan o'r adolygiad hwn, fe wnaethom ganolbwyntio ar ein cynllun wrth gefn ar gyfer biniau sbwriel ar draws yr Awdurdod. Rydym wrthi'n cwblhau'r adolygiad hwn. Felly, ar hyn o bryd mae gwaharddiad arnom i ychwanegu biniau sbwriel ychwanegol at ein rhwydwaith. Mae pob cais am finiau sbwriel ychwanegol yn cael ei gofnodi i'w ystyried, a byddwn yn dilyn y fethodoleg 'Matrics Biniau Sbwriel' sydd newydd ei datblygu ar gyfer y ceisiadau hyn o hyn ymlaen”.

Trafododd holl aelodau'r cyngor a oedd yn bresennol yr e-bost a gofynnwyd i'r Clerc ateb yr e-bost yn nodi nad oes angen bin sbwriel newydd ar Fynyddcerrig ond adfer y bin yr oedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi'i symud heb rybudd ymlaen llaw. Dylid copïo'r Cynghorydd Sir S Hughes i'r e-bost. **Penderfynwyd** nodi.

55/2025-2026 Nodi gohebiaeth neu ei rhestru i'w hystyried mewn cyfarfod cyngor sydd ar ddod.

(Anfonir yr holl ohebiaeth berthnasol drwy e-bost at aelodau'r cyngor ar adeg ei derbyn a dim ond os oes angen neu os gofynnir yn benodol amdani gan aelodau neu'r Clerc y caiff ei chyflwyno gerbron y cyfarfod).

Derbyniwyd yr e-bost canlynol ar 05/06/2025 a'i anfon ymlaen at holl aelodau'r cyngor –

“ENWEBU CYNRYCHIOLYDD CYNGOR CYMUNED

Mae swydd wag ar gyfer Llywodraethwr Cymunedol Ychwanegol ar Gorff Llywodraethol Ysgol Llanddarog. Mae'r Cynghorydd John Williams wedi ymddiswyddo.

Felly mae'n angenrheidiol i'ch Cyngor ystyried enwebu cynrychiolydd newydd. Dim ond drwy enwebiad gan y Cyngor Cymuned y gellir llenwi'r swydd wag, ond nid oes angen i'r enwebai fod yn gynghorydd. Bydd y penodiad i'r rôl yn cael ei wneud gan y Corff Llywodraethol.

Mae rôl y llywodraethwr yn rôl weithredol, h.y. disgwylir i bob llywodraethwr fynychu cyfarfodydd a chyfrannu atynt. Rhaid i lywodraethwyr newydd fynychu hyfforddiant gorfodol o fewn 12 mis i'w penodiad.

Dywedodd y Cynghorydd J Williams O.B.E fod camgymeriad wedi digwydd gan fod y Cynghorydd Sir H Jones yn cynrychioli Cyngor Cymuned Llanddarog ar Gorff Llywodraethol Ysgol Llanddarog ar hyn o bryd fel y trafodwyd yng nghyfarfod mis Mai ar 14/05/2025 Cofnod 12/2025-2026. **Penderfynwyd** y dylai'r Clerc hysbysu Cyngor Sir Caerfyrddin.

Derbyniwyd e-bost ar 10/06/2025 a'i anfon ymlaen at bob aelod ynghylch gosod gorchymyn terfyn cyflymder 50mya 2025. Mae'r ddogfen hon yn cyhoeddi bwriad y

Cyngor i ostwng y terfyn cyflymder i 50mya ar ffyrdd lle ystyrir bod y terfyn cyflymder cenedlaethol presennol (60mya) yn amhriodol oherwydd pryderon diogelwch ffyrdd, ac i gefnogi amcanion teithio llesol. Hefyd wedi'i gynnwys oedd Datganiad llawn o Resymau'r Cyngor dros fod eisiau cyflwyno'r Gorchymyn, y Gorchymyn arfaethedig a'r cynlluniau y cyfeirir atynt yn yr Hysbysiad a'r Gorchymyn. Daw'r cyfnod gwrthwynebu i ben ar 02/07/2025, felly dylid derbyn unrhyw sylwadau a wneir i'r Awdurdod erbyn y dyddiad hwn fan bellaf.

Trafododd holl aelodau'r cyngor a oedd yn bresennol y ddogfen ac ni wnaed unrhyw wrthwynebiadau. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir H Jones ac eiliwyd gan y Cynghorydd J Williams O.B.E Cytunwyd ar y ddogfen. **Penderfynwyd** ei nodi.

Gofynnodd y Cynghorydd R Jones i'r Cynghorydd Sir S Hughes "pam roedden nhw'n cynnig newid y terfyn cyflymder i 50mya pan oedd y terfyn cyflymder wedi'i newid i 50mya o'r blaen heb ymgynghori a phwy a awdurdododd y newid?"

Dywedodd y Cynghorydd Sir S Hughes mai Llywodraeth Cymru a'i cynigiodd.

Adroddodd y Cynghorydd J Williams O.B.E nad oedd y C2061 o Borthyrhyd i Foelgastell wedi'i chynnwys yn ystod yr ymgynghoriad diwethaf ar leihau'r cyflymder o 60mya i 50mya ac er gwaethaf cael cyfarfod â Mr Mike Jacob (Rheolwr Traffig a Diogelwch Ffyrdd) ar 18/11/2024, ni dderbyniwyd unrhyw ddiweddariadau. Cadarnhaodd y Clerc nad oedd unrhyw ddiweddariadau wedi'u derbyn.

Trafododd holl aelodau'r cyngor y mater a gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Mr Mike Jacob i gael y wybodaeth ddiweddaraf a chopi o'r Cynghorydd Sir S Hughes i'r e-bost. **Penderfynwyd** nodi.

56/2025-2026 Cynllunio.

Dim gwrthwynebiadau i'r ceisiadau cynllunio canlynol. Cynigiwyd gan y Cynghorydd J Williams O.B.E ac eiliwyd gan y Cynghorydd R Jones. Adroddodd y Cynghorydd R Jones fod rhyddhau amod yn golygu bodloni amod blaenorol.

PL/09301 - Meddiannu eiddo fel annedd breswyl heb gydymffurfio ag amod meddiannaeth bersonol ac amod meddiannaeth amaethyddol (Amodau 2 a 3 o D4/203) – Brombyd, Llanddarog, Caerfyrddin, SA32 8NU

PL/09309 - Rhyddhau Amod 24 ar PL/06638 (Manylion Gwaredu Dŵr Wyneb) - Tir sy'n rhan o Fferm Wern Fraith, Porth-y-rhyd, Caerfyrddin, SA32 8PT

PL/09338 - Rhyddhau Amodau 11 a 17 ar PL/06638 (Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu a Chynllun Rheoli Traffig Adeiladu) - Tir sy'n rhan o Fferm Wern Fraith, Porth-y-rhyd, Caerfyrddin, SA32 8PT

PL/09339 - Rhyddhau Amod 3 ar PL/07200 (Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu) - Tir sy'n rhan o Fferm Wern Fraith, Porth-y-rhyd, Caerfyrddin, SA32 8PT

PL/09374 - Rhyddhau Amodau 12 a 22 ar PL/06638 (Blychau Nythu Gwenoliaid Duon a Blychau Clwydo Ystlumod a manylion Wal Ffin) - Tir sy'n rhan o Fferm Wern Fraith, Porth-y-rhyd, Caerfyrddin, SA32 8PT

PL/09379 - Y cynnig yw ei ddefnyddio fel Cartref Gofal cofrestredig ar gyfer hyd at 3 o bobl sy'n mynychu coleg i bobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig. Mae defnydd o'r fath wedi'i gynnwys o dan ddosbarth defnydd 3b, h.y. mae o fewn yr un dosbarth defnydd â'r defnydd presennol - Tyr Garn, Mynyddcerrig, Llanelli, SA15 5BBPL/09447 - Trosi ysgubor garreg a bwthyn yn annedd unigol - Cilyrynys, Porth-y-rhyd, Caerfyrddin, SA32 8PX.

57/2025-2026 Taliadau.

Cafodd y taliadau isod eu hardystio yng nghyfarfod misol mis Mai a'u cadarnhau yn mis Mehefin. Copïau o anfonebau wedi'u hanfon at bob aelod yn electronig cyn talu i'w hawdurdodi. Cynigiwyd gan y Cynghorydd R Jones ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir H Jones.

Dull Talu	Dyddiad	Cyflenwyr a Manylion	Swm £ gan gynnwys TAW
Ar-lein	01/05/2025	Nest	2.10
Ar-lein	19/05/2025	Tâl Gwasanaeth	4.25
Ar-lein	29/05/2025	Gwasanaethau Coed Dynefor – 01/05/2025	300.00
Ar-lein	29/05/2025	Gwasanaethau Coed Dynefor – 23/05/2025	300.00
Ar-lein	29/05/2025	JG Evans – Cyflogres Mai	400.39
Ar-lein	29/05/2025	Yswiriant Zurich – YLL2720873593	537.44
Ar-lein	29/05/2025	HMRC	105.40
Ar-lein	29/05/2025	123 Reg	15.59
Ar-lein	29/05/2025	Sioe Bentref Llanddarog – Grant Refeniw Blynyddol	300.00
Ar-lein	29/05/2025	Neuadd y Pentref Llanddarog – Grant Refeniw Blynyddol	650.00
Ar-lein	29/05/2025	Lles Porth-y-rhyd – Grant Refeniw Blynyddol	650.00
Ar-lein	29/05/2025	Lles Mynyddcerrig – Grant Refeniw Blynyddol	650.00

58/2025-2026 Derbyniadau.

Dim

59/2025-2026 Cadarnhau'r Adroddiad Archwilio Allanol a baratowyd ar gyfer 2024 – 2025.

Roedd pob aelod wedi cael adroddiad ysgrifenedig a chopi o gyfrifon 2024 – 2025 cyn y cyfarfod. Mae'r Clerc wedi derbyn hysbysiad o gyfarwyddyd ynghylch yr Archwiliad Allanol sydd ar ddod. Cwblhaodd y Clerc yr adroddiad a chyflwynodd yr adroddiad i holl aelodau'r cyngor i'w ymchwilio cyn ei gyflwyno i aelodau'r cyngor i'w gadarnhau. Cyflwynwyd esboniad ar lafar i holl aelodau'r cyngor yn egluro'r holl gwestiynau a ofynnwyd gan yr Archwilydd Allanol. Cynigiwyd gan y Cynghorydd R Jones, eiliwyd gan y Cynghorydd Sir H Jones a chytunodd holl aelodau'r cyngor i dderbyn y dogfennau a baratowyd gan y Clerc. **Penderfynwyd** y dylai'r Clerc gael y dogfennau wedi'u llofnodi gan y Cadeirydd a'r Archwilydd Mewnol cyn anfon dogfennau wedi'u cwblhau at yr Archwilydd Allanol cyn 30/06/2025. **Penderfynwyd** nodi.

60/2025-2026 I dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am garreg goffa Porthyrhyd.

Adroddodd y Clerc fod cymysgydd sment petrol wedi'i drefnu ar gyfer y gwaith. Adroddodd y Cynghorydd J Williams O.B.E fod gwirfoddolwyr wedi'u trefnu i gwblhau'r gwaith ar 05/07/2025. Adroddodd y Cynghorydd M Griffiths ei fod yn aros am gadarnhad ynghylch y cyfansawdd. Dywedodd y Cynghorydd J Williams O.B.E y byddai enwau'r milwyr a fu farw yn cael eu casglu a'u cadarnhau unwaith y byddai'r slab concrit wedi'i gwblhau. **Penderfynwyd** nodi.

61/2025-2026 I drafod Gwobrau Cymunedol.

Dyweddodd y Clerc fod posteri wedi'u gosod ym mhob hysbysfwrdd cymunedol, lleoliad cyhoeddus ac wedi'u hanfon drwy e-bost at bartïon a argymhellwyd. Diolchodd y Clerc i'r Cynghorydd M Griffiths am anfon cyfeiriadau e-bost perthnasol i'r gwobrau. Adroddodd y Cynghorydd R Jones ei fod hefyd wedi anfon negeseuon e-bost at bartïon â diddordeb. **Penderfynwyd** nodi.

62/2025-2026 Fforwm er mwyn i Aelodau godi adroddiadau / cwestiynau drwy'r Cadeirydd.

Adroddodd y Cynghorydd R Owen fod angen clirio'r ffosydd ar hyd ffordd yr U2269 o Fynyddcerrig i Bontyberem gan fod wyneb y ffordd yn llawn dŵr yn ystod glaw trwm.

Penderfynwyd i'r Cynghorydd Sir S Hughes a'r Clerc adrodd.

Cyhoeddodd y Clerc fod myfyriwr ifanc o bentref Mynyddcerrig wedi cysylltu ag ef i gynorthwyo gyda helpu'r gymuned fel rhan o'i "Wobrau Dug Caeredin". Adroddodd y Clerc y byddai'r myfyriwr yn cael ei oruchwyllo bob amser ac y byddai'n ei gynorthwyo gyda gwaith gweinyddol ac yn gosod hysbysiadau ar hysbysfyrddau'r gymuned. Gofynnodd y Clerc i bob aelod o'r cyngor a oedd yn bresennol, os oedd angen sylw ar unrhyw faterion eraill, i gysylltu ag ef a byddai ef yn trefnu cymorth i'r myfyriwr.

Adroddodd y Clerc, oherwydd nifer o gyfarfodydd yn ystod 2024-2025 a bod y presenoldeb gofynnol i gael cworwm mewn cyfarfod, awgrymodd y dylid cyfethol y Cynghorydd Sir S Hughes i Gyngor Cymuned Llanddarog.

Gadawodd y Cynghorydd Sir S Hughes y cyfarfod.

Trafododd aelodau'r Cyngor yr awgrym uchod a chytuno gyda'r Clerc y dylid cyfethol y Cynghorydd Sir S Hughes i Gyngor Cymuned Llanddarog oherwydd anawsterau yn y gorffennol wrth gael gwirfoddolwyr i ymuno â'r cyngor cymuned. Cytunodd holl aelodau'r cyngor a oedd yn bresennol.

Ailymunodd y Cynghorydd Sir S Hughes â'r cyfarfod

Croesawodd holl aelodau'r cyngor y Cynghorydd Sir S Hughes fel aelod o Gyngor Cymuned Llanddarog. Diolchodd y Cynghorydd Sir S Hughes i holl aelodau'r cyngor a oedd yn bresennol am ei benodiad i'r cyngor cymuned.

63/2025-2026 Yng nghamera 20.13.

Gadawodd y rhai nad oeddent yn aelodau o'r Cyngor Cymuned na'r Clerc y cyfarfod – i beidio â dychwelyd. Mae'r gwaharddiad oherwydd materion personél/staffio sy'n cael eu trafod.

64/2025-2026 Cyflogau staff yn rhedeg ym mis Mehefin 2025.

Adroddodd y Clerc symiau'r gyflogres ar lafar i holl aelodau'r cyngor. **Penderfynwyd** derbyn yr adroddiad a chadarnhau taliad y symiau fel y'u cyflwynwyd. Cynigwyd gan y Cynghorydd J Williams O.B.E ac eiliwyd gan y Cynghorydd R Jones.

65/2025-2026 Daeth y cyfarfod i ben am 20.17.

Cadeirydd

Dyddiad
